## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr V.J. Bailey, P. Drake, V.P. Driscoll, M.G.J. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

377 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

378 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd G. John.

379 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

380 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Driscoll fuddiant mewn perthynas ag Eitem 5 yr Agenda – Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026: Adroddiad Monitro Blynyddol 2020/2021 – Cabinet: 13 Medi, 2021. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar sawl eiddo ar Heol Holltwn. Roedd natur yr adroddiad yn golygu bod y Cynghorydd Driscoll yn parhau i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

381 RHWYDWAITH TEITHIO GWEITHREDOL – PROSES YMGYNGHORI STATUDO (CYF) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y sylw o

gyfarfod y Cabinet ar 19 Gorffennaf, 2021.

Nododd yr adroddiad fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol, cynllunio ar eu cyfer, eu gwella a’u hyrwyddo. Cymeradwywyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLlau) cychwynnol gan Lywodraeth Cymru (LlC) ym mis Tachwedd 2017 a rhaid cyflwyno MRhTLlau wedi'u diweddaru i LlC bob tair blynedd. Roedd mapiau cyfredol Bro Morgannwg ar gael ar wefan y Cyngor (Teithio Llesol - bromorgannwg.gov.uk).

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r MRhTLlau wedi'u diweddaru oedd 27 Chwefror 2021 yn wreiddiol, ond oherwydd Covid-19 cafodd hyn ei ymestyn gan LlC tan 31 Rhagfyr 2021.

Roedd yr aneddiadau a nodwyd yn ardal Teithio Llesol Bro Morgannwg gan LlC yn cynnwys y Barri, y Bont-faen, Dinas Powys, Llanilltud Fawr, Penarth, y Rhws, Sain Tathan a'r Sili.

Nododd yr adroddiad fod y meini prawf y mae'n rhaid i lwybrau Teithio Llesol eu bodloni yn uchel iawn ac nad oeddent yn adlewyrchu safonau cynnal a chadw'r Cyngor ei hun, na'r safonau yr oedd gan Gynghorau hawl gyfreithiol i'w hystyried wrth gynnal asesiadau risg ar lwybrau cerdded i ysgolion. Felly, efallai na fydd llwybr yr ystyriwyd ei fod ar gael yn llwybr priodol i'r ysgol, yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru, yn bodloni'r meini prawf i fod yn llwybr Teithio Llesol. Yn yr un modd, roedd gan y Cyngor ei safonau ei hun ar gyfer ffyrdd neu droedffyrdd wrth benderfynu a oedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw. Felly, roedd y llwybrau ar gyfer Teithio Llesol yn adlewyrchu dyheadau LlC ar gyfer darparu cyfleusterau newydd ond roeddent i gyd yn dibynnu'n drwm ar yr arian sydd ar gael i ddarparu llwybrau o'r fath.

Aseswyd y llwybrau gan ddefnyddio mecanwaith sgorio ac efallai y bydd datganiadau eithrio y gellid eu defnyddio i alluogi llwybr i fod yn llwybr Teithio Llesol heb iddo fodloni'r holl feini prawf yn y canllawiau. Adroddwyd bod yn rhaid asesu pob llwybr ar wahân, a barnwyd ei bod yn broses hir sy’n defnyddio llawer o adnoddau. Y gyfradd basio i alluogi llwybr i gael ei ystyried yn llwybr teithio llesol ar gyfer cerdded a beicio, oedd 70%.

Roedd y MRhTLlau yn gynllun cynhwysfawr. Roeddent yn cynnwys llwybrau a ddefnyddir ar hyn o bryd nad ydynt o bosibl yn bodloni safon llwybrau Teithio Llesol neu lwybrau nad ydynt yn bodoli sydd wedi cael eu nodi mewn cynlluniau strategol eraill, neu sydd wedi cael eu nodi drwy'r broses ymgynghori.

Nododd y Pwyllgor fod LlC wedi dyrannu £2.5m i ddatblygu cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

Soniodd y Cynghorydd R. Sivagnanam am rywfaint o'r adborth a gafodd gan drigolion lleol ym Mhenarth ynghylch graddiant serth ac anaddasrwydd rhai llwybrau. Roedd hefyd am godi'r materion diogelwch sy'n ymwneud â'r cysylltiad rhwng Windsor Road a'r cysylltiad â Cogan. Cyfeiriodd y Cynghorydd Sivagnanam hefyd at strydoedd ym Mhenarth fel Plassey Street, lle cafodd y coed eu symud am eu bod

wedi achosi difrod i'r palmant neu'r ffordd.  Roedd rhai o'r ardaloedd palmantog hefyd yn cynnwys cerrig llithrig ac roedd angen edrych ar y sefyllfa.  Ychwanegodd, lle'r oedd y coed wedi'u symud, na fu unrhyw arwydd a fyddai'r math cywir o goeden yn cael ei phlannu, ac na fyddai'r coed newydd yn achosi'r un math o broblemau. Roedd ailblannu coed yn bwysig o ran y strydlun.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth ei bod yn bwysig i sylwadau gael eu bwydo i'r porthol ymgynghori gan y byddai'n galluogi'r cyhoedd i nodi a ydynt yn hoffi neu ddim yn hoffi'r hyn a ysgrifennwyd.  Ychwanegodd fod hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei godi'n aml o ran coed, ond bod cydbwysedd rhwng diogelwch a'r strydlun.  Roedd y Cyngor yn ailblannu coed, ond ni fyddai'r rhain bob amser yn yr un lleoliad â'r coed a oedd wedi'u symud. Roedd y gwaith hwn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei gynnwys yn Strategaeth Goed y Cyngor, a fyddai'n edrych ar goed ledled y Fro gyfan ac a oedd i fod i gael ei chwblhau ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd L.O. Rowlands ei bod yn ymddangos bod rhai lonydd beicio yn cael eu defnyddio'n anaml gan gyfeirio at sylwadau a dderbyniodd gan feicwyr yn dweud bod deunydd ar lonydd wedi achosi difrod i olwynion a theiars. Gofynnodd felly a ellid gwneud mwy i annog beicwyr i ddefnyddio lonydd beicio. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y byddai'r Cyngor yn sicrhau bod lonydd beicio'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol i safonau uchel er diogelwch ar y ffyrdd. Cydnabuwyd mai'r ffordd orau o annog beicio oedd cael lonydd dynodedig. Ceir yr enghreifftiau gorau o'r rhain, mae'n debyg, ar Lôn 5 Milltir a Port Road.  Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod yn well gan rai beicwyr ddefnyddio ffyrdd yn hytrach na lonydd beicio dynodedig.  Cytunodd y byddai gwybodaeth am nifer y beicwyr sy'n defnyddio llwybrau a lonydd yn cael ei rhannu â'r Aelodau.

Gofynnodd y Cynghorydd A.R Robertson a oedd rhai o'r llwybrau ar y map ar gyfer Dinas Powys eisoes yn bodoli ac a oedd hynny'n golygu na fyddai unrhyw draffig. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod nifer o lwybrau Teithio Llesol i'r dyfodol yn cael eu cynnig ar gyfer Dinas Powys a fyddai'n bodloni safon uwch.  Nid ar gyfer cerddwyr neu feicwyr yn unig yr oedd y rhain a byddai gwelliannau fel arfer yn golygu ehangu palmentydd neu ddatblygu cyfleusterau beicio.  Roedd rhai llwybrau hefyd fel St. Andrews lle'r oedd cyfyngiadau corfforol yn cyfyngu ar y gwaith y gellid ei wneud.

O ran costau cyffredinol, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod y Cyngor wedi derbyn swm cychwynnol o £2.5m i ddatblygu llwybrau.  Byddai arian i gyflawni prosiectau yn cael ei bennu'n rhan o'r cam nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd M.G.J. Morgan o safbwynt gwledig y rhwydwaith Teithio Llesol a oedd yn ymddangos fel pe bai wedi'i ganoli'n bennaf mewn ardaloedd trefi. Cyfeiriodd at ddiogelwch ar ffyrdd gwledig ac anaddasrwydd rhannau o'r rhwydwaith gwledig a oedd yn gwneud pasio beicwyr a marchogion yn beryglus.  Gwnaed y broblem hon yn fwy peryglus gan gyflymderau rhai cerbydau.  Felly, gofynnodd y Cynghorydd Morgan a ellid gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac awgrymodd y dylid lleihau'r terfyn cyflymder o 60mya ar gyfer lonydd gwledig trac sengl.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD barn y Pwyllgor Craffu yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori a chyfeirio'r farn hefyd at y Cabinet i'w hystyried. Dyma'r farn:

Tynnu sylw at faterion diogelwch a oedd yn gofyn am gael gwared ar goed oedd yn achosi difrod i balmentydd a lonydd beicio. Tynnu sylw hefyd at y pwysigrwydd oedd i goed o ran golygfeydd stryd trefi, felly roedd angen strategaeth i sicrhau bod y math cywir o goeden yn cael ei phlannu nad oedd yn achosi difrod i balmentydd / lonydd beicio ac ati;

- Bod angen dull mwy cyfannol o hyrwyddo Teithio Llesol er mwyn annog mwy o ddefnydd o lonydd beicio;
- Roedd y Pwyllgor Craffu yn cefnogi'n gryf y gwelliannau Teithio Llesol a gynigiwyd ar gyfer yr A4055 rhwng y Barri a Dinas Powys;
- Fel ffordd o annog cerdded a beicio mewn ardaloedd gwledig, dylid ymgyrchu i leihau'r terfynau cyflymder ar ffyrdd a lonydd gwledig;
- Roedd y Pwyllgor Craffu am bwysleisio pwysigrwydd cyflwyno prosiectau'n llwyddiannus ar ôl ymgynghori er mwyn gwella cymunedau'n gadarnhaol.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Caniatáu i farn y Pwyllgor Craffu gael ei bwydo i mewn i'r gweithgaredd ymgynghori a sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r safbwyntiau hynny.

382 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020/2021 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio'r sylw o gyfarfod y Cabinet ar 13 Medi, 2021 fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Adroddwyd bod hyn yn ymwneud â'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar y Trydydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a oedd yn asesu perfformiad y polisïau wrth gyflawni amcanion integredig y Cynllun sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan roi sylw i'r Fframwaith Monitro a nodir yn y CDLl ac y cytunwyd arno gan yr Arolygydd yn rhan o'r Archwiliad CDLl ac a fabwysiadwyd o ganlyniad gan y Cyngor ar 28 Mehefin, 2017.

Roedd fformat yr AMB yn dilyn y fformat a awgrymwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddaraf. Roedd yn cynnwys dangosyddion monitro craidd a lleol a defnyddiwyd system sgorio 'goleuadau traffig' yn gymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun ac i roi trosolwg cyflym o berfformiad polisi.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cyflawniadau polisi allweddol hyd yma ac yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r targedau monitro perthnasol wedi'u bwrw. Tynnodd sylw at y dangosyddion lle'r oedd angen ymchwil/ymchwilio pellach a nododd fod COVID-19 wedi oedi datblygiad rhai Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a pheth hyfforddiant i Aelodau mewn perthynas â Pholisi MD1 fel yr argymhellwyd yn yr AMB blaenorol.

Yn gyffredinol, adroddwyd bod yr AMB yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran gweithredu'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun a bod strategaeth y CDLl yn parhau’n gadarn. Yn unol â hynny, argymhellwyd i’r Cabinet y dylid cyflwyno'r trydydd AMB i LlC erbyn 31 Hydref, 2021 a’i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â Rheoliad 37 y CDLl. Yn ogystal, nododd fod y Cyngor wedi dechrau adolygiad o’r CDLl yn unol â Rheoliad 41 y CDLl ac argymhellodd i’r Cabinet y dylid dechrau gweithio ar CDLl newydd ar ôl i LlC gymeradwyo Cytundeb Cyflawni newydd.

Gofynnodd y Cynghorydd L.O. Rowlands a oedd mwy o hyblygrwydd yn y system o ran unedau busnes aml-ddefnydd, yn enwedig ar adeg pan oedd busnesau bach yn ei chael hi'n anodd talu eu hardrethi busnes.  Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod y Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gyda landlordiaid a busnesau o ar is-rannu safleoedd ac roedd yn awyddus iawn i hyrwyddo defnydd cymysg.  Roedd y duedd bresennol wedi gweld twf mewn gofod swyddfa a busnesau hamdden, felly roedd y Cyngor wedi bod yn hyblyg wrth ymateb i dueddiadau'r farchnad. Ychwanegodd bod llawer o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag eiddo gwag, ond roedd yn bwysig cydnabod bod Heol Holltwn yn Y Barri yn gwneud yn dda o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng nghanol trefi ledled Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd A.R. Robertson am newidiadau yn y ffordd yr oedd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn monitro'r modd y mae tai'n cael eu hadeiladu a thir sydd ar gael at ddibenion preswyl. Roedd y mesurau'n cynnwys dirymu NCT 1 Astudiaethau Argaeledd Tir Tai (2015) a'r angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai blynyddol.  Gofynnodd hefyd a oedd gan y Cyngor bellach fwy o ymreolaeth o ran pennu gofynion tai ar gyfer Bro Morgannwg.  Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod yn rhaid i Gynghorau yn y gorffennol, pan gynhaliwyd Adolygiad Monitro Tai, sicrhau bod cyflenwad tai 5 mlynedd. Pe na bai'n gwneud hynny, gallai datblygwyr wneud ceisiadau cynllunio a oedd yn ei hanfod yn golygu y gellid gorfodi safleoedd ar Gynghorau.  Roedd y CDLl presennol yn cynnwys tua 9600 o dai, ac roedd bellach adolygiad blynyddol o'r CDLl i asesu a oedd y Cyngor ar y trywydd iawn i fwrw ei darged cyffredinol (9600 o gartrefi).

Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio hefyd, o ran ymreolaeth a datblygiadau tai newydd, fod angen bellach i Gynghorau weithio ar sail ranbarthol.  Roedd hyn yn golygu bod LlC yn awyddus i gael mwy o ddatblygiadau mewn ardaloedd i'r gogledd o goridor yr M4.  Roedd disgwyl i gynghorau gydweithio i adeiladu tai mewn ardaloedd yr oedd angen eu hysgogi'n economaidd.  Felly, roedd Bro Morgannwg yn debygol o fod â llai o ddatblygiadau tai nag ardal fel Rhondda Cynon Taf. Ychwanegodd y byddai angen i LlC gymeradwyo CDLl newydd y Fro, ond ar y cyfan, byddai'r dull newydd yn decach, gan fod Bro Morgannwg eisoes wedi rhoi lle i dros 9000 o gartrefi, felly byddai ffocws ar ddatblygiadau mewn ardaloedd eraill.  Byddai'r gwaith rhanbarthol hwn hefyd yn cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud gan Fargen Ddinesig Caerdydd.

Dywedodd y Cynghorydd V.J. Bailey ei bod yn debygol y byddai pwysau o ardaloedd cyfagos ynghylch datblygiadau tai newydd yn y Fro.  Roedd o'r farn y byddai'n anodd denu datblygwyr i ardaloedd y cymoedd gan fod yr enillion ariannol yn llai o'u cymharu ag adeiladu cartrefi newydd yn y Fro. Felly, cyhoeddodd air o rybudd ynghylch datblygwyr a oedd yn awyddus i ddatblygu prosiectau ar fannau gwyrdd yn

y Fro, felly roedd yn bwysig i'r Cyngor fod yn gryf wrth egluro ei safbwynt. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio y bu newid sylweddol i'r ffordd y cafodd ffigurau tai eu cyfrifo. Ystyriwyd bod datblygiadau tai newydd yn rhan bwysig o adfywio economaidd, yn enwedig ar gyfer yr ardaloedd hynny a oedd wedi wynebu dirywiad economaidd. Roedd hefyd yn bwysig ystyried bod LIC yn awyddus i gynyddu nifer y datblygwyr tai bach a chanolig eu maint ledled Cymru, a oedd yn cael ei hystyried yn ffordd o roi mwy o le ar y farchnad i ddatblygiadau llai o faint.

Gofynnodd y Cynghorydd M.G.J. Morgan a ellid ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â chartrefi ymddeol newydd drwy CDLl newydd. Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod hyn yn fwy ar gyfer polisïau cenedlaethol sy'n benodol i LIC. Roedd Polisi Cynllunio Cymru wedi sôn am rai o'r materion, ond nid oedd hyn yn cynnwys digon o fanylion felly roedd trafodaethau pellach yn parhau. Felly, y gobaith oedd y byddai newidiadau pellach ar y ffordd.

Gofynnodd y Cynghorydd S. Sivagnanam am y cymorth a roddir i'r busnesau hynny sy'n ei chael yn anodd recriwtio staff yn ystod pandemig Covid-19. Cyfeiriodd hefyd at gynigion LIC i greu 'hybiau' ar y stryd fawr, mannau y gallai pobl fynd iddynt i weithio (desgiau poeth) a gofynnodd am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda LIC. Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio, o ran y CDLl, y cyfan y gallai ei wneud oedd rheoleiddio, ond bod y Cyngor wedi bod mor hyblyg ag y gallai. O ran adfywio, roedd gan y Cyngor swyddogion yn gweithio gyda busnesau ac yn rhoi cymorth iddynt, ac roedd cyngor ar gael ar sut i gael gafael ar arian grant. Roedd materion fel recriwtio a'r effaith oherwydd Brexit, ar draws nifer o sectorau economaidd, yn cael eu monitro. O ran hybiau a gweithio gyda LIC, cadarnhaodd fod cyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal i asesu ble y gellid datblygu'r hybiau. Ar hyn o bryd roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y Barri, ond y gobaith oedd ei ymestyn i drefi eraill.

Gofynnodd y Cynghorydd S.T. Wiliam am y duedd bresennol o ran pobl yn dychwelyd i'r gwaith/swyddfeydd. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod gweithwyr wedi dychwelyd i'w swyddfeydd i raddau helaeth, ond byddai eu patrymau gwaith yn wahanol gyda llai o amser yn cael ei dreulio yn eu gweithleoedd. Rydym yn debygol o weld newid i'r ffordd y defnyddir adeiladau swyddfa gyda mwy o ddefnydd o fannau gweithio a rennir/cydweithredol.

Wedi hynny, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael ei gymeradwyo.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

383 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (RG) –

Cyflwynodd yr adroddiad ar berfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (1 Ebrill i 30 Mehefin 2021) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol

(2020/21) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i Gynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22). Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Chwarter 1 (Ch1).

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97% (306 allan o 315) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n cyfleu’r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Melyn i 1% (2) a statws Coch i 2% (7) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O’r 7 o gamau gweithredu a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y chwarter, roedd 29% (2) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Mewn perthynas â'r meysydd hyn, roedd gwaith bellach yn ailddechrau, lle y bo’n briodol, fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor. Roedd y cyflwyniad a oedd yn cyd-fynd â’r adroddiad ar berfformiad yn hysbysu’r Aelodau o’r cynnydd o ran adfer ar ôl y coronafeirws yn y Pwyllgor Craffu ac roedd yn canolbwyntio ar dynnu sylw at faterion oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y diweddariad ar adfer ar ôl y coronafeirws bellach yn rhan o adroddiadau perfformiad chwarterol er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith eu Pwyllgorau perthnasol. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas ag adfer ar ôl y coronafeirws.

O'r 42 o fesurau perfformiad chwarterol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd am ddata ar gyfer 34 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 50% (17) o’r mesurau, statws Melyn i 17% (6) a statws Coch i 33% (11) Nid oedd data ar gael ar gyfer 8 mesur chwarterol oherwydd mesurau ailflaenoriaethu a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 107 o fesurau gan gynnwys nifer o ddangosyddion blynyddol (89) a'r rheiny sy'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer y flwyddyn (18).

Mewn perthynas â'r 11 o fesurau a gafodd statws Coch yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at 54% (6) yn colli'r targed;

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97% (97 o 100), statws Melyn i 0 a statws Coch i 3% (3). O'r 3 y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt, nodwyd bod effaith COVID-19 yn ffactor cyfrannol yn y llithriant a gofnodwyd. O'r 8 mesur chwarterol a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 63% (5), statws Melyn i 12% (1), a statws Coch i 25% (2).

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd.

Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.